Papur y Bwrdd

10 Chwefror 2015

Teitl y Papur	**Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) – rhaglen hysbysu ac effaith Glastir**
Cyfeirnod y Papur:	**CNC B B 9.15**
Paratowyd y papur gan:	Christine Edwards, gyda chyfraniad gan Bob Vaughan, Brian Pawson a Sarah Hetherington (Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio), Iwan Hughes (Gwasanaethau Cenedlaethol), Charlotte Gjerlov (Tîm Gweithrediadau y De), Mike Willis a Nick Thomas (Tîm Gweithrediadau y Gogledd a'r Canolbarth)

Pwrpas y Papur:	**Trafodaeth**
Argymhelliad:	Nodi rhaglen Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer hysbysu SoDdGA yn y dyfodol, yn ogystal â'n rôl, ysgogwyr a thargedau ar gyfer hwyluso a chyflawni gwaith rheoli cadwraeth ar SoDdGA.
Angen Penderfyniad:	Nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i gydbwyso'r ymdrechion ar draws ffrydiau gwaith SoDdGA rhagweithiol ac adweithiol.

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae SoDdGA yn cynrychioli'r prif ddynodiad cenedlaethol ar gyfer lleoedd o bwysigrwydd o safbwynt bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yng ngwledydd Prydain. Maen nhw'n gwneud cyfaniad pwysig i warchod y safleoedd rhywogaethau, cynefinoedd a daearegol pwysicaf yng Nghymru. Ar y tir, dyma'r prif ddull rheoleiddiol o gyflawni rhwymedigaethau'r Gyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd yng Nghymru. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru sawl rôl berthnasol, gan gynnwys dyletswydd gyfreithiol i hysbysu SoDdGA a chaniatáu gweithrediadau, gwneud gwaith rheoli tir uniongyrchol ar ein hystâd ein hunain a dyletswydd gyffredinol i warchod bioamrywiaeth.

	Effaith ar yr Economi: Mae astudiaethau'n dangos bod SoDdGA yn creu manteision sylweddol yn economaidd, a bod manteision y safleoedd yng Nghymru yn fwy na chost y polisi. Amcangyfrifwyd bod y cyhoedd yn fodlon talu £128 miliwn y flwyddyn am y manteision a ddarperir gan y safleoedd yng Nghymru (Benefits of SSSIs, Defra 2011). Mae'r modd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymryd â swyddogaethau a dyletswyddau SoDdGA yn cael effaith ar economi Cymru, yn fwyaf uniongyrchol trwy gyllido cytundebau rheoli (cyllideb flynyddol o tua £2 m), yn bennaf (ond nid yn gyfyngedig iddynt) â rheolwyr tir yn y sector amaethyddol. Mae gwariant Glastir ar SoDdGA hefyd yn darparu manteision economaidd pwysig. **Effaith ar Wybodaeth:** Mae cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth a thystiolaeth. Mae cyfres o SoDdGA yn cynnig adnoddau a chyfleoedd monitro gwerthfawr ar gyfer rhaglenni ledled y DU – gan gynnwys tystiolaeth o newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â rheoli, monitro ac ymchwil bioamrywiaeth a chadwraeth. **Effaith ar Gymunedau:** Mae SoDdGA yn darparu manteision ehangach i gymunedau drwy'r gwasanaethau ecosystem a ddarperir.

Pwnc

1. Ysgrifennwyd y papur hwn er mwyn hysbysu'r Bwrdd am y penderfyniadau anodd y bu'n rhaid eu gwneud o ran cydbwyso ymdrechion y ffrydiau gwaith rhagweithiol ac adweithiol sy'n ofynnol i gyflwyno gwaith SoDdGA Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae ein dyletswydd i ymateb i 'Hysbysiadau o Fwriad' ar gyfer gweithrediadau arfaethedig yng nghytundebau rheoli tir Glastir ar SoDdGA, yn enghraifft o hyn. Gan gydnabod manteision cadarnhaol cynllun rheoli tir Glastir, mae ein staff wedi bod yn asesu llwyth gwaith sylweddol o geisiadau dan y cynllun Glastir. O'r herwydd, mae cyfradd hysbysu SoDdGA newydd wedi arafu, yn ogystal â'r cyfraniadau at waith rhagweithiol sydd wedi'i drefnu. (gweler isod). Rydym yn defnyddio dull gweithredu ar sail risg er mwyn gwneud ein gorau glas dros yr amgylchedd tra'n defnyddio ein hadnoddau staff mor effeithlon â phosibl.

Crynodeb

2. Staff gweithredol o fewn timau penodol sydd â'r dasg o gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau SoDdGA Cyfoeth Naturiol Cymru:

Rhaglen ragweithiol

- Arolwg a gwerthuso
- Hysbysu a chadarnhau
- Cytundebau rheoli
- Rheoli gwirfoddol
- Gweithio mewn partneriaeth
- Monitro

Rhaglen adweithiol

- Caniatâd (gan gynnwys Glastir)
- Gorfodi

3. Mae cydbwyso'r amser a'r ymdrech rhwng yr elfennau gwaith hyn yn dibynnu ar y pwysau a'r galwadau sydd ar y timau Gweithrediadau sy'n gyfrifol am SoDdGA. Mae'r timau hyn yn gorfod ymateb i waith adweithiol fel gwaith achosion caniatâd sy'n gysylltiedig â Glastir, a rhaglenni ymgynghori/ dynodi ar gyfer safleoedd o bwys rhyngwladol ar ran Llywodraeth Cymru, a gwaith rhagweithiol. Mae gwahaniaethau daearyddol o ran dosbarthiad llwythi gwaith hefyd, er enghraifft, mae staff y Gogledd yn gorfod prosesu mwy o ganiatadau Glastir gan fod cyfran mwy o gytundebau SoDdGA a chytundebau amaeth-amgylcheddol yn y Gogledd.

Cefndir

4. Dan adran 28 (1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (diwygio), mae dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i hysbysu'r tir canlynol os: '*it is of the opinion that any area of land is of special interest by reason of its flora, fauna or geological or physiographical features*'. Rhaid hysbysu holl berchnogion a deiliaid y tir yn ogystal â rhai cyrff cyhoeddus, ac felly maent yn destun gofynion caniatâd i gynnal unrhyw weithrediadau sy'n debygol o ddifrodi diddordeb arbennig y safle. Mae gan Wasanaethau Cenedlaethol restr o ddarpar safleoedd ar gyfer eu hysbysu a'u dadhysbysu, ac mae'n cytuno ar raglen flynyddol gyda thimau gweithrediadau.

5. Bydd hynt Bil yr Amgylchedd yn arwain at ystyried ac integreiddio anghenion rheoli'r SoDdGA wrth ddatblygu'n dull rheoli ar lefel yr ecosystem a chynllunio rheoli adnoddau naturiol. Mae Cynllun Adfer Natur drafft Llywodraeth Cymru yn nodi cyfleoedd trwy ddatblygu Datganiadau Ardal er mwyn adolygu'r berthynas rhwng safleoedd, dynodiadau eraill a'r amgylchedd ehangach er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin mewn ffyrdd sy'n cydategu ei gilydd i sicrhau manteision niferus.

6. Ar ôl cynnal arolwg a dadansoddi tystiolaeth, mae darpar SoDdGA posibl yn cael eu hasesu yn unol â'r cyngor a ddarperir gan arbenigwyr cynefinoedd, rhywogaethau a geoamrywiol Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â chanllawiau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ar gyfer dethol SoDdGA. Mae tua 12.5% o dir Cymru wedi'i ddynodi'n SoDdGA, ac mae cyfran sylweddol o'r 1062 yn safleoedd o bwys rhyngwladol, wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, yn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig dan y Gyfarwyddiaeth Adar (sef safleoedd Natura 2000) neu wedi'u rhestru fel safleoedd Ramsar dan Gonfensiwn Ramsar. Darpariaethau SoDdGA yw'r prif ddull o reoli'r safleoedd rhyngwladol bwysig hyn (ar y tir).

7. Ar ôl hysbysiad SoDdGA, mae'n ofynnol i berchnogion a meddianwyr a chyrff cyhoeddus ofyn am ganiatâd i wneud unrhyw waith sy'n debygol o achosi difrod i'r safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Mae timau gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb i bob cais am ganiatâd i wneud gweithgareddau rheoli tir o fewn amserlenni deddfwriaethol (gweler Atodiad 1 am fwy o wybodaeth am faint o ganiatadau Glastir a roddwyd dros gyfnod 12 mis diweddar).

8. Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, rydym wedi ymroi i sicrhau bod SoDdGA mewn cyflwr ffafriol. Ffocws y Rhaglen Safleoedd Arbennig yw sbarduno cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth er mwyn gweithredu. Mae'r Rhaglen yn hyrwyddo dull integredig o weithio ac yn darparu fframwaith i ddod a staff a sefydliadau partner perthnasol at ei gilydd i ddarparu cydlyniant a chyfeiriad strategol. Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyd-arwain camau i gyflawni'r targedau hyn, gyda chyfraniadau partneriaeth gan amrywiaeth eang o sefydliadau eraill yn y sector preifat, gwirfoddol a chyhoeddus. Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cydlynu camau gweithredu'r bartneriaeth ac is-grŵp y Bartneriaeth yn goruchwylio'r cynnydd tuag at dargedau cyflwr SoDdGA a sefydlwyd dan Strategaeth Amgylcheddol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2006).

   Ar y pryd, fe wnaethom gydnabod eu bod yn dargedau heriol iawn a chytunodd Llywodraeth Cymru y byddem yn canolbwyntio ar gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni rheolaeth briodol ar safleoedd gwarchodedig, gyda chyflwr nodweddion yn brif nod. Mae ein gwaith arfaethedig o gyflawni'r targedau hyn ar droed. Mae ein Dangosydd Cynllun Corfforaethol "Cyflwr nodweddion safleoedd Natura 2000 morol, tiriogaethol a dŵr croyw' yn goch ar hyn o bryd, fodd bynnag, ac mae hyn yn debygol o barhau am 3 phrif reswm:

   - yr oedi rhwng sicrhau rheolaeth briodol a'r cynefin neu'r rhywogaeth yn ymateb mewn modd y gellir ei fesur;
   - diffyg tystiolaeth ddiweddaraf o gyflwr y nodwedd (SoDdGA a rhaglen fonitro N2K) oherwydd blaenoriaethau sy'n cystadlu'n erbyn ei gilydd ac adnoddau cyfyngedig.
   - y cyflymder cymharol y gallwn ymgymryd â'r holl gamau gweithredu sy'n ofynnol i gael safleoedd o dan reolaeth briodol, syn dibynnu ar faint o

adnoddau y gallwn ni ymrwymo i'r gwaith hwn a chamau gweithredu'r sefydliadau partner.

9. Mae Rhaglen LIFE Natura 2000 yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer adfer a rheoli safleoedd Natura 2000, pob un ar y tir ac wedi'u seilio ar SoDdGA. Bydd yn nodi beth sydd angen ei wneud yn y safleoedd hyn, yn blaenoriaethu a chostio'r gwaith ac ystyried dulliau traddodiadol ac arloesol o fynd i'r afael â'r heriau. Dylai hyn gyflwyno ffocws newydd a dulliau newydd o weithio i'r dasg o reoli ein safleoedd Natura 2000.

10. Mae'r timau gweithrediadau yn cynllunio rhaglenni gwaith blynyddol i fynd i'r afael â materion rheoli cadwraeth sydd eisoes wedi'u dynodi ar SoDdGA. Rhaid i'r materion a nodwyd fod yn rhai sylweddol, e.e. naill ai eisoes yn achosi i nodweddion fod mewn cyflwr anffafriol neu'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol, os na fyddant yn cael eu rheoli. Mae'r rhaglen waith flynyddol yn blaenoriaethu cytundebau rheoli posibl Cyfoeth Naturiol Cymru a nodwyd fel rhai i'w trafod, ac yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael.

11. Contractau Glastir yw un o'r dulliau o sicrhau rheolaeth gadwraeth briodol ar SoDdGA ar ffermdir a choetir. Trafodir telerau contractau gan Lywodraeth Cymru ac fe'u hariennir dan y Cynllun Datblygu Gwledig trwy gyfuniad o gyllid yr UE a Llywodraeth Cymru. Mae cytundebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru yn opsiwn arall sy'n cael eu defnyddio'n helaeth iawn hefyd, ac ar gael i amrywiaeth ehangach o reolwyr tir. Mae'r cytundebau hyn yn cael eu trafod yn uniongyrchol gan asiantiaid tir Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhwng Glastir a chytundebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl bwysig yn cynghori ar y cytundeb mwyaf addas. Mae'r dewis rhwng Glastir a chytundeb rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar y perchennog tir/tirfeddiannwr dan sylw. Er mwyn cymryd rhan yng nghynllun Glastir, rhaid anfon cais i Lywodraeth Cymru, tra gall cytundebau rheoli CNC ddeillio o gynigion gan y perchennog/rheolwr tir neu gan CNC sy'n dymuno cyflwyno opsiynau rheoli, gan weithio o fewn cyfyngiadau a blaenoriaethau cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd staff gweithredol yn blaenoriaethu yn ôl llwyth gwaith Glastir, gan ystyried y gofynion i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol eraill.

12. Er mwyn creu'r manteision amgylcheddol mwyaf o'r adnoddau ariannol cyfredol sydd ar gael i CNC, hoff ddewis cyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau amcanion cadwraeth SoDdGA trwy gytundebau Glastir lle bo modd. Mae cytundebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu hariannu drwy'n hadnoddau ein hunain ac yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ategu Glastir, er mwyn cefnogi gwaith rheoli ar ardaloedd nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth o dan y rhaglen amaeth-amgylcheddol neu lle nad yw ffermwyr am fod yn rhan o gynllun Glastir.

13. Un o oblygiadau dibynnu cymaint ar Glastir yw bod y nifer uchel iawn o geisiadau Glastir yn 2014/15 wedi cael cryn effaith ar lwyth gwaith staff a'u gallu i wneud gwaith rhagweithiol arall ar SoDdGA. Mae'n debygol y bydd llai o lwyth gwaith yn ystod hanner cyntaf 2015 o leiaf, ond rydym yn rhagweld y bydd yn cynyddu eto yn hydref 2015. Mae llawer o hyn yn deillio o'r ffaith y bydd llawer o gytundebau amaeth-amgylcheddol hanesyddol yn dod i ben, a'r angen i ail-drafod telerau cytundebau sy'n effeithio ar reoli tir SoDdGA.

Camau Nesaf

14. Mae cryn botensial i wella effeithlonrwydd y broses ymgynghori rhwng CNC a Llywodraeth Cymru ar gynlluniau Glastir sy'n effeithio ar SoDdGA. Bydd dull o'r fath hefyd yn helpu i integreiddio darpariaethau'r corff etifeddol ac yn sicrhau gwasanaeth sy'n cydymffurfio â gofynion adolygiad Hampton. Bydd yr adolygiad hwn yn defnyddio proses ail-beiriannu sgiliau fewnol CNC a bydd yn adrodd ar hyn nes ymlaen eleni, oherwydd yr holl waith sy'n ofynnol. Mae Cynllun Prosiect sy'n darparu cofnod manwl o'r gwaith arfaethedig gan roi sylw i holl elfennau Glastir ac ar effaith y gwaith ar Cyfoeth Naturiol Cymru. Law yn llaw â hyn, mae 'camau cyflym ymlaen' yn cael eu hystyried a'u gweithredu.

15. Yn y cyfamser, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gefnogi rhaglen Glastir gan ddefnyddio prosesau cyfredol. Gan gymryd y bydd y galw am waith achos Glastir yn parhau ar y lefel bresennol, bydd y timau gweithrediadau yn dal i orfod sicrhau cydbwysedd rhwng ymateb i geisiadau Glastir a rhaglen waith ragweithiol SoDdGA. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos ein bod wedi llwyddo i daclo effeithiau llwyth gwaith rhyfeddol 2014. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd presennol ynglŷn â sut fydd ffermwyr Cymru yn ymateb i'r newidiadau PAC diweddar (yn enwedig y drefn Taliadau Uniongyrchol newydd a dyddiad cymeradwyo'r Rhaglen Datblygu Gwledig newydd gan y Comisiwn Ewropeaidd) yn golygu ei bod hi'n hynod o anodd rhagweld llwyth gwaith Glastir yn y dyfodol. Mae'r un mor anodd rhagweld y galw posibl am gytundebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru.

16. Mae llofnodi contractau Glastir ar SoDdGA yn cyfrannu at sicrhau bod safleoedd dynodedig mewn cyflwr ffafriol. Ar yr un pryd, mae darpariaethau ac adnoddau cytundebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n cael eu hadolygu a bydd yn cynnwys y flaenoriaeth a ddatblygwyd gan Raglen LIFE Natura 2000 i reoli ac adfer safleoedd Natura 2000.

Risgiau

17. Os nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu bwrw ymlaen â hysbysiadau SoDdGA newydd, gall hynny niweidio ein henw da, yn sgil colli neu ddifrodi adnoddau bywyd gwyllt unigryw Cymru. Gellir lliniaru'r risg hon trwy ddyrannu adnoddau staff digonol i fodloni ein dyletswydd statudol. Gall ad-drefnu'r gyfres o safleoedd presennol arwain at arbed adnoddau yn y tymor hwy, e.e. ail-hysbysu, cyfuno a diweddaru'r rhestr 'Gwaith sy'n debygol o ddifrodi'r diddordeb arbennig'

18. Os na fydd digon o adnoddau ar gael i asesu a chymeradwyo ceisiadau Glastir, byddwn yn colli cyfleoedd i gynnwys camau rheoli cadarnhaol. Gall hyn atal gwelliannau o ran cyflwr ffafriol SoDdGA. Gall hefyd arwain at fwy o bwysau ar y gyllideb rheoli cytundebau. Mae proses adolygu fewnol yn mynd i'r afael â materion adnoddau staff sy'n gysylltiedig â chydsyniadau SoDdGA Glastir.

19. Byddai unrhyw ostyngiad yng nghyllideb cytundebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru yn lleihau'r posibilrwydd a'r cyfle i lunio cytundebau newydd. Mae adolygiad o'r strategaeth cytundebau rheoli ar waith, sy'n ystyried yr ymrwymiadau cytundebol cyfredol.

Goblygiadau Ariannol

20. Byddai gostyngiad yn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer cytundebau rheoli yn lleihau ein gallu i ddod â SoDdGA i gyflwr ffafriol a byddai'n effeithio ar ddyheadau ein cynlluniau busnes a chorfforaethol i gynyddu cyfran y SoDdGA sydd mewn cyflwr o gael eu hadfer neu mewn cyflwr ffafriol. Ar ben hynny, byddai cyllideb y cytundebau rheoli sy'n weddill wedi ei hymrwymo i drefniadau cyfredol, gan olygu llai o allu i lunio ymrwymiadau newydd.

Cyfathrebu

21. Bydd rôl SoDdGA a dibyniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar Glastir yn ogystal â chytundebau rheoli yn cael eu cynnwys yng nghynllun cyfathrebu ehangach Cyfoeth Naturiol Cymru.

22. Lle bo Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig hysbysu neu ail-hysbysu unrhyw SoDdGA, byddwn yn llunio cynllun cyfathrebu yn unol â maint y dynodiad dan sylw.

23. Bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal deialog barhaus â'r sectorau ffermio a choedwigaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'n dull gweithredu ar hysbysiadau SoDdGA a chytundebau rheoli yn ogystal â'r modd rydym ni'n cyflwyno cynllun Glastir gyda Llywodraeth Cymru.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (EqIA)

Nid yw hyn yn ofynnol.

Mynegai Atodiadau

1. Caniatadau/Cydsyniadau Glastir a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru - 1 Tachwedd 2013 – 31 Hydref 2014
2. Gwybodaeth am ffrydiau gwaith SoDdGA a safleoedd rhyngwladol

Papur y Bwrdd

Atodiad 1

CANIATADAU/CYDSYNIADAU GLASTIR A GYFLWYNWYD GAN CYFOETH NATURIOL CYMRU 1 Tachwedd 2013 i 31 Hydref 14

Mae'n ymddangos bod tua 50% o'r holl ganiatadau ar gyfer cytundebau Glastir, fodd bynnag, nid yw nifer fawr o gynigion Glastir yn arwain at roi/gofyn caniatâd. Ar ben hynny, mae llawer o ganiatadau Glastir yn fwy cymhleth na'r rhai a roddir am resymau eraill ac felly nid yw'r ystadegau o reidrwydd yn adlewyrchu llwyth gwaith y staff. Mae swmp gwaith Glastir yn amrywio'n fawr o un tîm gweithrediadau i'r llall.

Uwch
Cafodd 1427 o achosion eu cyfeirio i Cyfoeth Naturiol Cymru gan Lywodraeth Cymru, a chyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru 864 Rhybudd o Fwriad, gyda 552 ohonynt wedi'u cwblhau.

Mynediad
Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru 234 o achosion i Cyfoeth Naturiol Cymru a rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru 103 o ganiatadau.

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Papur y Bwrdd

Atodiad 2

Gwybodaeth am ffrydiau gwaith SoDdGA a safleoedd rhyngwladol CYFOETH NATURIOL CYMRU

Mae'r wybodaeth hon yn crynhoi'r cyd-destun ar gyfer Rhaglen Safleoedd Arbennig Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn amlinellu'r amcanion, y llwyddiannau hyd yma, a'r ffrydiau gwaith arfaethedig – gan ganolbwyntio ar safleoedd tiriogaethol a dŵr croyw (h.y. ac eithrio ardaloedd morol a warchodir ac a oruchwylir gan y Bwrdd Rhaglen Forol.

Adran 1 - statudol
Adran 2 – rhagweithiol a strategol (Rhaglen Safleoedd Arbennig)
Adran 3 – ffrydiau gwaith trawsbynciol eraill

Mae 12.3 % o dir Cymru wedi'i ddynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac mae cyfran helaeth ohonynt hefyd yn safleoedd o bwys rhyngwladol ac wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, yn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig dan y Gyfarwyddeb Adar neu'n safleoedd Ramsar dan Gonfensiwn Ramsar.

Cynllun Busnes CYFOETH NATURIOL CYMRU 2014/2015

E3: Byddwn yn chwarae ein rhan ac yn gweithio gydag eraill i atal colli bioamrywiaeth er mwyn helpu i sicrhau y bydd ecosystemau yn gryfach erbyn 2020

- Cynyddu cyfran y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd mewn cyflwr adferol neu ffafriol, gan ganolbwyntio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, safleoedd RAMSAR a safleoedd morol eraill, gan flaenoriaethu'r rhai ar dir rydym ni'n ei reoli.

- Datblygu dulliau gwella rheolaeth adfer strategol ar safleoedd dynodedig Cymru, gan ganolbwyntio ar weithredu sy'n esgor ar y canlyniadau gorau, gan gynnwys cynlluniau fel y rhaglen LIFE N2K.

1. Statudol

Gwneud arolwg a gwerthuso ar gyfer hysbysu/dynodi

Ar ôl cynnal arolwg a gwerthuso tystiolaeth, mae arbenigwyr a staff gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesu SoDdGA posibl yn erbyn canllawiau dewis a dethol SoDdGA y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae'r canllawiau'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ac yn debygol o arwain at adolygu'r gyfres. Yr Adolygiad o Gadwraeth Daearegol yw'r sail ar gyfer adnabod safleoedd daearegol. **Arwain: Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio - Grŵp Dadansoddi Tystiolaeth a'r Grŵp Bioamrywiaeth a Physgodfeydd.**

Dethol safleoedd a hysbysu SoDdGA

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd dan Adran 28 (1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (diwygio) i hysbysu tir os yw'n credu bod y tir hwnnw o ddiddordeb arbennig oherwydd planhigion neu anifeiliaid neu ei nodweddion daearegol neu ffisiograffigol. Rhaid hysbysu holl berchnogion a meddianwyr unrhyw dir a chyrff cyhoeddus penodol, ac felly maent yn destun gofynion i ofyn am ganiatâd cyn gwneud unrhyw waith a all ddifrodi'r diddordeb arbennig hwnnw. Mae Gwasanaethau Cenedlaethol yn cadw rhestr o safleoedd posibl ar gyfer hysbysu ac ail-hysbysu ac yn cytuno ar raglen flynyddol gyda thimau safleoedd Gweithrediadau **Arwain: Gwasanaethau Cenedlaethol**
Cyflawni: Gweithrediadau

Ymgynghori ar ddynodiadau rhyngwladol ar ran Llywodraeth Cymru

Arwain: Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio (Cydlynu ar gyfer safleoedd tiriogaethol - Ruth Jenkins, ar gyfer safleoedd morol - Rhian Jardine)
Cyflawni: Gweithrediadau

Gwaith sy'n debygol o ddifrodi'r safle o ddiddordeb arbennig - trefn ganiatáu a gorfodi SoDdGA

Ar ôl hysbysiad, mae perchnogion, meddianwyr a chyrff cyhoeddus yn gorfod gofyn am ganiatâd/cydsyniad i wneud unrhyw waith sy'n debygol o ddifrodi'r diddordeb arbennig. Mae timau gweithrediadau yn ymateb i bob cais am ganiatâd neu gydsyniad i wneud gwaith o fewn yr amserlenni deddfwriaethol.
Cyflawni: Gweithrediadau
Canllawiau a chyngor: Gwasanaethau Cenedlaethol

Gwaith achos

Staff gweithredol sy'n ymdrin â chynigion ar gyfer cynlluniau a phrosiectau sy'n effeithio ar SoDdGA, gyda chymorth cyngor Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio arbenigol. **Cyflawni: Gweithrediadau**
Cyngor a chanllawiau: Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

Adrodd

Mae angen adroddiadau statudol ac anstatudol i ddylanwadu ar y broses o ddatblygu polisi a strategaeth. Mae data o'r Gronfa Ddata Camau Gweithredu Safleoedd Arbennig yn un ffynhonnell wybodaeth, ac fe'i defnyddir i adrodd am y cynnydd o ran cyflawni mesurau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yn adroddiadau'r Gyfarwyddeb Dŵr, a bydd yn cael ei ddefnyddio i helpu i ddatblygu Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth ar gyfer safleoedd Natura 2000. Cyflwynwyd y Fframwaith cyntaf ar gyfer Cymru i'r Comisiwn Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru a Defra ym mis Chwefror 2013, a bydd yn cael ei ailwampio yn 2015 fel rhan o Raglen LIFE N2K.

Cynlluniau Rheoli Basn Afon y Fframwaith Cyfarwyddeb Dŵr, 2il gylch

Cynnwys amcanion a chamau gweithredu Natura 2000 (mesurau) yn 2il gylch Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Mae grŵp gorchwyl a gorffen dan y Grŵp Gweithredu Dŵr (WIG) yn bwrw'r prosiect hwn ymlaen.
Arwain: Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio – Grŵp Dŵr, Grŵp Bioamrywiaeth a Physgodfeydd

2. Dulliau anstatudol, rhagweithiol a strategol o reoli cadwraeth safleoedd

Rhaglen Safleoedd Arbennig

Cafodd y Rhaglen Safleoedd Arbennig ei lansio yn 2007 mewn ymateb i Ganlyniad 21 Strategaeth Amgylchedd Cymru, Llywodraeth Cymru, sy'n gosod targedau i sicrhau bod safleoedd mewn cyflwr ffafriol. Gall fod oedi rhwng cymryd camau priodol a'r cynefinoedd a rhywogaethau yn ymateb ac yn cyrraedd cyflwr ffafriol. Canolbwynt y rhaglen yw sbarduno cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth ar gyfer gweithredu. Mae'r Rhaglen yn darparu ffordd integredig o weithio, a fframwaith sy'n dwyn staff

perthnasol a sefydliadau partner ynghyd i ddarparu cyfeiriad strategol a chydgysylltiad. Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n cyd-arwain camau gweithredu'r targedau hyn, a disgwylir cyfraniadau partneriaeth gan amrywiaeth eang o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru sy'n cydlynu camau gweithredu, ac is-grŵp 'Canlyniad 21' y Bartneriaeth sy'n gorchwylio'r cyflawniad. **Arwain: Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio Cyflawni: Gweithrediadau**

Cynllunio Rheoli

Mae rhaglen barhaus o adolygu a diweddaru Cynlluniau Rheoli Craidd Natura 2000 o fewn cylch monitro 6 blynedd (Erthygl 17). **Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio, Gweithrediadau – Ecosystemau, Cynllunio a Phartneriaethau**

Cronfa ddata camau gweithredu

Mae adnodd ar-lein cydweithredol wedi'i ddatblygu er mwyn galluogi sefydliadau partner i ddeall, trafod a chynllunio eu cyfraniad er mwyn cyflawni'r targedau. Gellir cyrchu'r gronfa ddata ar yr allrwyd, gyda system fewngofnodi ddiogel i sefydliadau partner weld data ar safleoedd a'r camau gweithredu a 'nodwyd' sy'n ofynnol i'r holl unedau o fewn SoDdGA, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a safleoedd Ramsar. Mae dros 100 o ddefnyddwyr allanol o 28 o sefydliadau. Mae tîm Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio'n agos â TGCh i reoli'r gronfa ddata, trwyddedu data, mewngofnodi ac adrodd.

Mae staff gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynllunio rhaglenni gwaith blynyddol sy'n mynd i'r afael â materion rheoli cadwraeth. Rhaid i faterion/problemau a nodwyd fod yn rhai sylweddol - naill ai'n achosi cyflwr anffafriol neu'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol, os na chaiff ei reoli. Mae'r rhaglen waith flynyddol yn blaenoriaethu cytundebau rheoli adran 15 i'w trafod, ac yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r holl waith adweithiol ar SoDdGA yn cael dylanwad sylweddol ar nifer o gamau rhagweithiol y gellir eu cychwyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae cryn dipyn o amser staff dros y blynyddoedd diwethaf wedi'i dreulio yn ymateb i geisiadau am ganiatâd i wneud gwaith a gynigir yng ngheisiadau cytundeb Glastir ar SoDdGA (mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n adolygu pob agwedd ar waith Glastir Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd, er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol o fewn cyfyngiadau amser ac adnoddau, er mwyn bodloni ymrwymiadau Glastir Llywodraeth Cymru).
Mae'r gronfa ddata yn adnodd 'byw', h.y. o fewn y flwyddyn, gallwn newid a disodli camau gweithredu i adlewyrchu'r amgylchiadau gwahanol. Mae'r rhaglen waith a'r adroddiadau a rannwn gyda Llywodraeth Cymru yn feincnodau sy'n dangos y cynnydd hyd yma.

Rhaglen LIFE N2K 2000 'Datblygu rhaglen ar gyfer rheoli ac adfer Natura 2000 yng Nghymru'

Cychwynnwyd y rhaglen waith hon gan y Rhaglen Safleoedd Arbennig trwy gais llwyddiannus i Raglen LIFE+ yr UE, ac mae'n para tan fis Medi 2015. Bydd Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth Natura 2000 gyda, (lle bo modd), mesurau wedi'u costio yn cael eu cynhyrchu. **Arwain: Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio – Grŵp Bioamrywiaeth a Physgodfeydd**

Monitro

Rydym wrthi'n datblygu strategaeth fonitro Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd: mae SoDdGA, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn rhan o gwmpas y Strategaeth. **Arwain: Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio – Grŵp Monitro ac Adrodd am Dystiolaeth**

3. Ffrydiau gwaith trawsbynciol eraill ar gyfer 2014-16

- Integreiddio Cynllunio Rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru a'r dull gweithredu ar lefel ecosystem
  Arwain: Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio – Grŵp Adnoddau Naturiol ac Ecosystemau
- Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru
  Arwain: Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio – Grŵp Bioamrywiaeth a Physgodfeydd

- Tasgau pontio Cyfoeth Naturiol Cymru – trosglwyddo data safleoedd o wefan y corff etifeddol i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, trosglwyddo sylweddol o systemau etifeddol i blatfform data newydd Cyfoeth Naturiol Cymru
  Arwain: Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio – Grŵp Bioamrywiaeth a Physgodfeydd
- Rheolaeth ragweithiol Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei dir ei hun (Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ystâd Goed ddynodedig Llywodraeth Cymru)
  Arwain: Gweithrediadau – Ecosystemau, Cynllunio a Phartneriaethau
- Rheolaeth ragweithiol Cyfoeth Naturiol Cymru mewn partneriaeth, trwy gymorth grant CNC neu Gyd-ddealltwriaeth
  Arwain: Gweithrediadau fel arfer, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio weithiau
- Cyrchu cyllid allanol (e.e. LIFE)
  Arwain: Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio – Grŵp Rheoli Cymunedau, Risg Llifogydd a Digwyddiadau ar y cyd â Gweithrediadau